

## Disgrifiad Swydd

**Teitl:** Cynghorydd

**Crynodeb / Pwrpas:** Yn gyfrifol am gynnal sesiynau cwnsela ar sail un i un a grŵp i gynorthwyo cleientiaid i nodi eu hanghenion unigol a'u rhwystrau i ddysgu a dilyniant. Cynnal a datblygu partneriaethau gweithio allanol i rannu arfer gorau, cyfeirio cleientiaid ac i hwyluso gweithdai sy'n annog addysg bellach ar les i'r holl ddysgwyr

**Adrodd i:** Rheolwr Busnes

**Goruchwyllo:** Ddim yn berthnasol

### **Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

#### **Penodol**

- Cadw at Fframwaith Moesegol BACP ar gyfer Arfer Da mewn Cwnsela a Seicotherapi
- Arddangos yr holl werthoedd a rhinweddau moesol personol yn unol â Fframwaith Moesegol BACP
- Gweithio o fewn egwyddorion moesegol arfer da BACP mewn cwnsela
- Yn atebol am gynnal sesiynau therapi cwnsela grŵp ac unigol yn ôl yr angen
- Yn gyfrifol am gytuno ar gcontract cwnsela gyda phob dysgwr i bennu cynnwys sesiwn
- Sefydlu perthynas o ymddiriedaeth a pharch gyda dysgwyr, trwy wrando gweithredol ac empathi.
- Yn gyfrifol am gefnogi cleientiaid, heb ragfarn, tuag at ddealltwriaeth ddyfnach o'u pryderon ac am wneud penderfyniadau a dewisiadau.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol, mewn perthynas â chyfeirio, atgyfeirio a threfnu sgysiau / gweithdai
- Yn gyfrifol am hyrwyddo'r gwasanaeth yn weithredol
- Datblygu, hwyluso a chydlynw sesiynau hyfforddi ar gyfer dysgwyr a gweithwyr
- Gweithio'n effeithiol gyda'r timau cyflenwi i gynorthwyo dysgwyr i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddilyniant cadarnhaol
- Mynychu a hwyluso agweddau ar hyfforddiant a diwrnodau agored.
- Cofnodi a chynnal cofnodion, cyfarfodydd a dogfennau cysylltiedig eraill, yn unol â threfniadau diogelu data a chyfrinachedd
- Cynnal cymwyseddau galwedigaethol a datblygiad personol trwy; mynychu goruchwyliaeth yn unol â chod ymarfer BACP; darparu sesiynau wedi'u recordio i'r rheolwr llinell at ddibenion hyfforddi a mynychu digwyddiadau hyfforddi / rhwydweithio.
- Cyfrifoldebau a dyletswyddau Swyddog Diogelu Dynodedig
- Rhoi arweiniad, cefnogaeth a chynghor i'r holl staff

## Cyffredinol

- Sicrhau diogelwch asedau'r cwmni
- Cydymffurfio â holl bolisiâu a gweithdrefnau'r cwmni
- Cydymffurfio â polisi a gweithdrefn diogelu'r cwmni
- Cydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal a bod yn rhagweithiol wrth herio rhagfarn, gwahaniaethu a stereoteipio.
- Gweithredu polisiâu a gweithdrefnau ansawdd y cwmni yn llawn.
- Ymgynghori â polisi iechyd a diogelwch y cwmni mewn perthynas â'u cyfrifoldebau penodol fel y disgrifir yn yr adran trefniadau cyffredinol
- Ystyried eu gweithredoedd yn y gwaith o ran sut y gallant effeithio ar ddiogelwch Dysgwyr, cleientiaid ac ymwelwyr ag adeiladau'r Cwmni
- Cefnogi gwerthoedd craidd y sefydliad
- Cydweithredu â'r holl staff i sicrhau gweithle iach a diogel ac adrodd am y risgiau a nodwyd, yn adeilad y cwmni neu eraill, i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch dynodedig.
- Dyletswyddau eraill y gall y cwmni eu nodi o bryd i'w gilydd.
- Mynychu rhaglenni hyfforddiant / datblygiad personol perthnasol

## Manyleb Person

|                               | Hanfodol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Dymunol                               |
|-------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|
| <b>Profiad a Chymwysterau</b> | Diploma neu radd gydnabyddedig mewn Cwnsela.<br>Profiad o weithio gyda phobl ifanc ac oedolion mewn lleoliad cwnsela.<br>Aelod o'r BACP neu gyfwerth.<br>Trwydded yrru llawn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Aelod achrededig o BACP neu gyfwerth. |
| <b>Sgiliau</b>                | Sgiliau hunanreoli a'r gallu i weithio'n annibynnol.<br>Sgiliau cynllunio, TG a threfnu cryf<br>Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol.<br>Cadw at derfynau amser wrth rannu gwybodaeth.                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Rhugl yn y Gymraeg                    |
| <b>Gwybodaeth</b>             | Gallu gweithio gan ddefnyddio dull Integredig.<br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o God Moeseg BACP neu BABCP.<br>Gwybodaeth am CORE neu fesurau canlyniadau cyfatebol.<br>Y gallu i rannu arbenigedd o fewn paramedrau cyfrinachedd.<br>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Ddiogelu                                                                                                                                                                                                     | Gwybodaeth am y diwydiant hyfforddi.  |
| <b>Nodweddion</b>             | Gwerthoedd a rhinweddau moesol personol yn unol â Fframwaith Moesegol BACP<br>Hunan-gymhelliant, hunan-gychwynwr<br>Agwedd hyblyg<br>Dibynadwy ac angerddol am wneud gwahaniaeth<br>Parodrwydd i oruchwyllo bob mis.<br>Parodrwydd i recordio sesiynau at ddibenion hyfforddi a datblygu gyda chaniatâd cleientiaid<br>Bod yn eiriolwr dros y sefydliad, a'i hyrwyddo'n gadarnhaol<br>Y gallu i deithio i wahanol ganolfannau ar fyr rybudd yn seiliedig ar anghenion busnes. |                                       |